| Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales | **Cyfeirnod:** PHW90<br>**Rhif y Fersiwn:** 1<br>**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Tachwedd 2028 |
|---|---|

# POLISI ARCHWILIO CLINIGOL

**Datganiad Polisi**

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r gofynion angenrheidiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) gyflawni ei nodau, ei amcanion, ei gyfrifoldebau a'i ofynion cyfreithiol yn dryloyw ac yn gyson mewn perthynas ag archwilio clinigol.

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd (fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG yng Nghymru gynnal asesiad o welliant mewn canlyniadau a gyflawnwyd drwy raglenni archwilio clinigol cenedlaethol ac archwilio mewnol (adran 9.12). Mae'n ofynnol i sefydliadau sicrhau bod ganddynt systemau a phrosesau ar waith i ddarparu mecanweithiau sicrwydd mewn perthynas ag effeithiolrwydd clinigol a darparu gwasanaethau, ac mae archwilio clinigol yn allweddol i hynny (adran 10.7).

Byddwn yn datblygu ac yn disgrifio ein “ffyrdd o weithio”:

- Wrth sicrhau bod data archwilio clinigol cenedlaethol ar gael i gefnogi cyhoeddi ystadegau gweithgarwch a chanlyniadau
- Wrth weithredu a/neu ymateb i holl argymhellion perthnasol unrhyw archwiliad clinigol priodol
- Wrth weithredu rhaglen barhaus, gymesur o archwilio clinigol ar gyfer gwasanaethau ein sefydliad yn unol ag arferion gorau
- Wrth gymryd rhan mewn archwiliadau clinigol cenedlaethol o fewn y Rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol a Chanlyniadau Cleifion (NCAPOP) sy'n berthnasol i wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru

Y canlyniad arfaethedig ar gyfer y polisi hwn yw cefnogi diwylliant o arferion gorau wrth reoli a chyflwyno archwiliadau clinigol.

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol canlynol:
- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol
- Cefnogi system iechyd a gofal cynaliadwy

Mae'r polisi hwn i'w ddarllen ar y cyd â Gweithdrefn Archwilio Ansawdd a Chlinigol

**Ymrwymiad Polisi**

Y canlyniad arfaethedig ar gyfer y polisi hwn yw nodi'r rhesymeg dros archwilio clinigol a darparu fframwaith ar gyfer gweithgarwch o'r fath, gan gynnwys glynu wrth safonau, canllawiau a gweithdrefnau.

Mae archwilio clinigol yn hanfodol i wella ansawdd, diogelwch a chyflenwi gwasanaethau yng Nghymru. Mae archwiliadau yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar

ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac yn monitro pa mor dda y mae gwelliannau'n cael eu datblygu.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio archwilio clinigol fel offeryn hanfodol i sbarduno gwella ansawdd a sicrhau ansawdd. Yn ganolog i hyn mae cyfeirio camau gweithredu cynhwysfawr tuag at feysydd nad ydynt yn bodloni safonau arferion gorau. Diffinnir ansawdd yn y Ddyletswydd Ansawdd fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i gyrff y GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn ddiogel, yn brydlon, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r dimensiynau ansawdd hyn yn darparu fframwaith i asesu ansawdd ac arwain gwaith gwella, ac mae archwilio clinigol yn fecanwaith allweddol i gyflawni hyn.

Bydd Tîm Archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn goruchwylio'r rhaglen archwilio clinigol ac yn monitro'r system rheoli archwilio yn unol â'r polisi hwn. Bydd y Tîm Archwilio hefyd yn cynorthwyo staff i ddatblygu a dylunio prosiectau archwilio clinigol.

Mae'r polisi hwn yn nodi ymrwymiad y sefydliad i sicrhau bod pob gwasanaeth clinigol yn ymgymryd â rhaglen o archwiliadau clinigol i roi sicrwydd o effeithiolrwydd ac ansawdd clinigol, ac i ysgogi gwelliant.

Bwriad y polisi hwn yw ategu ac nid disodli'r canllawiau presennol a gynigir gan gyrff proffesiynol.

**Cefnogi Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig**

Mae'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Bydd y polisi hwn yn cael ei gefnogi gan y Weithdrefn Archwilio Ansawdd a Chlinigol, sy'n disgrifio'r broses ar gyfer nodi, cofrestru, cynnal ac adrodd ar archwiliadau clinigol yn ICC.

Mae'r polisi a'r weithdrefn ill dau wedi'u hategu gan y Ddyletswydd Ansawdd, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Rhyngddibyniaethau gyda dogfennau polisi/rheoli eraill:

1. Fframwaith Llywodraethu Clinigol
2. Llywodraethu Gwybodaeth
3. Polisi Rheoli Risg

**Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud â phrosesau archwilio clinigol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ym mhob lleoliad, gan gynnwys:

- Yr holl staff, gan gynnwys rheolwyr, clinigwyr a phobl nad ydynt yn glinigwyr ar bob lefel a'r rhai sydd ar gontractau tymor byr neu anrhydeddus

| | |
|---|---|
| • Myfyrwyr a rhai sydd dan hyfforddiant mewn unrhyw ddisgyblaeth<br>• Cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, cleifion ac aelodau'r cyhoedd<br><br>Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol pan gynhelir archwiliad clinigol ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol. | |
| **Asesiadau Effaith** | Gellir gweld Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar dudalennau gwe'r polisi. |
| **Cymeradwywyd gan y canlynol:** | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | 25/11/2025 |
| **Dyddiad Adolygu** | 25/11/2028 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 11/12/2025 |
| **Y grŵp sydd ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau ategol** | Tîm Arweinyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Y Cyfarwyddwr Gweithredol/Cyfarwyddwr Atebol** | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| **Awdur** | Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Clinigol<br>Arweinydd Archwilio Ansawdd a Chlinigol<br>Pennaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru |

**Ymwadiad**

**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r fersiwn fwyaf cyfredol, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu ag Uned Fusnes y Bwrdd.**

**Mae hon yn ddogfen reoledig, a chedwir y prif gopi gan Uned Fusnes y Bwrdd**

Er y gellir argraffu'r ddogfen hon, y fersiwn electronig a bostiwyd ar y rhyngrwyd yw'r prif gopi. Nid yw unrhyw gopïau argraffedig o'r ddogfen hon yn cael eu rheoli. **Ni** ddylid cadw'r ddogfen hon ar yriannau lleol neu rwydwaith ond dylid ei chyrchu o'r rhyngrwyd bob amser.

**Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau**

| Rhif y fersiwn | Dyddiad yr Adolygiad | Dyddiad Cymeradwyo | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb o'r Diwygiadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 2025 | 25/11/25 | 11/12/25 | Polisi newydd |
| | | | | |
| | | | | |